Gweithgaredd Incwm ac Alldro

Pecyn cymorth p30-33

Gallwch gyfrifo eich incwm a thaliadau allan bob mis trwy ddefnyddio'r ffurflen ar y dudalen nesaf. Bydd hyn yn eich galluogi i greu eich cyllideb a chadw eich materion ariannol ar y trywydd iawn.

1. Y cam cyntaf yw rhestru eich incwm a all gynnwys unrhyw gyflog, budd-daliadau, taliadau cynhaliaeth plant neu ystod o ffynonellau eraill. Gallwch hefyd gwblhau'r cynllunydd cyllideb ar-lein hwn: **www.mhma.org.uk/cym/offer-a-chyfrifiannell/cynllunydd-cyllidebu/**

Os ydych yn cael eich incwm yn ôl gwahanol raddfeydd amser, mae angen i chi eu trefnu yn ôl un amlder megis wythnosol, pythefnosol neu fisol. Defnyddiwch y fformiwla canlynol i'ch helpu gyda throsiadau:

Trosi taliadau wythnosol yn daliadau misol: Swm wythnosol x 52 wythnos ÷ 12 mis

Trosi taliadau bob pedair wythnos yn daliadau misol: Swm bob 4 wythnos x 13 cyfnod ÷ 12 mis

Trosi taliadau chwarterol yn daliadau misol: Swm chwarterol x 4 chwarter ÷ 12 mis

Eitem o incwm	Swm (£)
Cyflog	
Cyflog eich partner	
Budd-daliadau	
Arall	
Arall	
Cyfanswm	

2. Y cam nesaf yw ychwanegu eich taliadau allan sy'n cynnwys costau tai, bwyd a diddordebau megis aelodaeth o gampfa.

Fel a ddangoswyd yn yr adran blaenoriaethau uchod, ystyrir bod rhai taliadau allan yn hanfodol a dylid eu blaenoriaethu wrth benderfynu beth ddylid ei dalu gyntaf. Ar ôl talu hwn allan, beth bynnag sydd dros ben yw eich incwm gwario y gallwch ei roi tuag at dalu dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth, cynilion neu bleserau.

Mae blaenoriaethau pawb yn wahanol, ond mae'r logo hwn yn dangos beth sy'n flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o bobl.

Taliadau allan	Swm (£)
Rhent/Morgais	
Yswiriant y cartref (e.e. adeiladau a/neu gynnwys)	
Yswiriant Bywyd	
Y Dreth Gyngor	
Nwy	
Trydan	
Cyfleustodau eraill (nwy/olew/nwy Calor)	
Trwydded Teledu	
Gofal Plant/Cynhaliaeth Plant	
Taliadau car	
Treth ffyrdd	
Tanwydd	
Costau teithio eraill (cludiant cyhoeddus/tacsi)	
Bwyd	
Dillad	
Ffôn (symudol/cartref/arall)	
Teledu cebl/lloeren/Rhyngrwyd	
Anifeiliaid anwes (bwyd/milfeddyg/yswiriant)	
Hamdden/diddordebau	
Rhoddion (Nadolig/Pen-blwyddi)	
Arall	
Arall	
Arall	
Cyfanswm	

3. Unwaith y byddwch wedi cyfrifo eich incwm a'ch taliadau allan, defnyddiwch y blwch isod i gyfrifo faint sydd gennych dros ben:

Cyfanswm incwm – cyfanswm taliadau allan = arian dros ben.

Cyfanswm incwm (£)	
Cyfanswm taliadau allan (£)	
Arian dros ben (£)	